


'Gwrthrych ein haddoliad yw'r Un Dyw hwnnw, sydd trwy ei Air, ynddo'i hunan, yn orchymyn gweithredol, ei ddoethineb yn drefnus a'i allu'n rymus; [Ef] a alwodd allan o ddim, yr holl fydsawd yn ei grynswth, gyda'i elfennau gwahanol, yn fodau corfforol a bodau ysbrydol er gogoniant i'w anrhydedd.'

Tertullian

Bob amser, diolchwch

'Pan fyddwch yn hapus, molwch Dduw. Mewn adegau trafferthus, ceisiwch Dduw. Mewn cynnodau o dawelwch, addolwch Dduw. Ar adegau poenus, ymddiriedwch yn Nuw. Bob amser, diolchwch i Dduw.'

Nicky Gumbel



Wela'r dydd yn dod, yn llosgi fel ffwrnais, pan fydd yr holl rai balch a'r holl wneuthurwyr drwg yn soffl; bydd y dydd hwn sy'n dod yn eu llosgi," medd ARLWYDD y Lluoedd, "heb adael iddynt na gwreiddyn na changen. Ond i chwi sy'n ofni fy enw fe gyfyd haul cyfiawnder â meddyginiaeth yn ei esgyll, ac fe ewch allan a llamu fel lloi wedi eu gollwng.

Malachi 4:1-2

Fynni dithau 'fenaid fod Yn y canol heb rhoi clod?

Elfed

Yr hiraeth am sancteiddrwydd

'Os ydych wedi rhoi eich hun iddo Ef go iawn, y mae'n rhaid ei fod yn dilyn y byddwch yn ymdrechu i ufuddhau Iddo... Nid er mwyn y gobaith o gael "mynd i'r Nefoedd" fel gwobr am eich gweithredoedd; ond mae'n ganlyniad ddi-osgoi eich bod am ymddwyn mewn ffordd arbennig am fod llewycy cynta'r Nefoedd eisoes o'ch mewn.'

CS Lewis

O Lawr y Gymanfa

Yn ystod y Gymanfa Gyffredinol yn Wrecsam eleni, dywedodd Golygydd Y *Goleuad* y carai weld y papur yn hwyluso mwy o drafodaeth o fewn y Cyfundeb.

A ninnau'n weithwyr ar wahanol raglenni gydag EBC ar hyn o bryd, hoffem ymateb i alwad y Golygydd trwy gynnig ein hargraffiadau ni o'r Gymanfa Gyffredinol – gydag ambell awgrym sut y gellid ei diwygio a'i datblygu i'r dyfodol.

Cyfeillach

Un elfen a'n tarodd ni yn syth oedd y synnwyr o werthfawrogiad sydd gan y cynrychiolwyr o wahanol rannau o Gymru ynghylch y Gymanfa ei hun – y cyfle blynyddol hwn i ddod ynghyd fel un Corff i ddathlu ein gwaith a'n bodolaeth fel eglwys. Ac wrth gwrs, mae'r gyfeillach y mae'r Gymanfa yn ei

darparu yn bwysicach nag erioed heddiw o ystyried y sefyllfa ar lawr gwlad, gyda'n haelodau yn aml yn teimlo'n ynysig ac yn anobeithiol am y dirywiad sydd i'w weld yn ein heglwysi.

Prysurdeb

Elfen arall drawiadol oedd sylwi ar union ystod y gwaith sy'n mynd rhagddo yn enw Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar hyn o bryd fel yr amlygwyd yn ystod holl adroddiadau'r Byrddau gwahanol dros ddeuddydd y Gymanfa. Mae yna bobol brysur a gweithgar iawn yn ein plith!

Sgŵp

A thipyn o sgŵp eleni hefyd oedd denu Dr Robert Cunville, un o gyd-weithwyr y diweddar Billy Graham, i sôn am ei brofiadau cenhadol yng nghwmni'r cawr hwn. Ei anerchiad ef oedd un o

uchafbwyntiau'r Gymanfa heb os nac oni bai.

Cryfhau i'r dyfodol

Ond o dderbyn mai'r Gymanfa Gyffredinol yw penllanw'r flwyddyn inni fel Cyfundeb, tybed nad oes angen ail-ystyried rhai elfennau er mwyn cryfhau'r profiad i bawb wrth edrych i'r dyfodol?

Ymgorfforiad o'r problem?

Yn y lle cyntaf, gellid dadlau bod y Gymanfa ei hun yn ymgorfforiad o un o'r problemau amlycaf yn ein heglwysi heddiw, hynny yw, bod ein cynulleidfaoedd yn rhy oddefol o lawer, yn treulio'r rhan helaethaf o'u hamser yn gwrando'n fud heb gael cyfle i gyfrannu at bethau mewn gwirionedd.

(parhad ar dudalen 2)

Atgofion am Gareth Reynolds

Wnes i gyfarfod Gareth gyntaf ar ddiwedd Medi 1954 yn yr ystafell gyffredin yn y Brifysgol yma yng Nghaerdydd. Roeddwn wedi clywed amdano cynt fel ymgeisydd am y weinidogaeth ond heb ei weld.

Wnai byth anghofio ei groeso cynnes na'i wen serchog ennillgar. Buom yn gyfeillion am bron i 64 o flynyddoedd.

Rhwng Caerdydd ag Aberystwyth yn ystod y tymhorau colegol, gwelsom ein gilydd bron yn ddyddiol am 5 mlynedd.

Un o'r problemau oedd yn wynebu pob ymgeisydd yn y Coleg Diwinyddol oedd trafndiaeth i'n cyhoeddiadau ar y Sul. Roedd **tri** math o deithwyr yn y Coleg Diwinyddol – y rhai oedd yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn unig, yr ychydig oedd yn meddu ar geir a'r gwyr cyhyrog oedd yn teithio mewn pob tywydd ar gefn beic modur, Yn eu plith oedd Gareth Reynolds, gyrrwr pwylllog a gofalus a Cynwil Williams. Hwy i ni oedd John Surtees a Geoff Duke y pumdegau.

Cofiaf i Cynwil fy ngwahodd i fynd am dro ar ei feic pwerus o gwmpas Aber. Cwyn y gyrrwr ar ddiwedd y daith oedd nad oeddwn yn gwyr'n ddigon isel i'r dde a'r chwith wrth iddo rhuthro heibio'r corneli. Roedd yn debyg i reid 'ar y wall of death' y gwelem mewn ffeiriau gynt. Fues i ddim wedyn. Ond deil Cynwil o hyd i lawer ohonom ymlith ffrindiau oes!

Un peth oedd cael car, y broblem nesaf oedd pasio'r prawf gyrru. Pan wynebais hyn ar strydoedd Machynlleth Gareth oedd fy nghefnogwr a'm cyd deithydd yno. Trwy

O Lawr y Gymanfa (parhad)

Yn ein barn ni, dyma un rheswm amlwg pam nad yw ein heglwysi yn ymddangos yn berthnasol i'r genhedlaeth iau heddiw – cenhedlaeth sy'n disgwyl cael bod yn gyfrannog a gweithredol yn eu bywydau pob dydd, boed hynny o ran eu gwaith neu eu dewisiadau hamdden.

Yn ystod sesiynau meithion y Gymanfa eleni, dim ond lleiafrif bach iawn o'r cynrychiolwyr oedd yn siarad a chyfrannu – gyda'r rhan fwyaf o ddigon yn fodlon eistedd yno am oriau dim ond yn gwrando. O feddwl bod yma gynrychiolwyr o bob Henaduriaeth – ein teimlad ni oedd nad oeddem fel Cyfundeb yn gwneud y mwyaf o'r dalent a'r profiad oedd ar gael inni o bob rhan o Gymru yn ystod y Gymanfa.

Carem awgrymu rhai syniadau am sut y meddir galluogi'r cynrychiolwyr i fedru cyfrannu'n fwy effeithiol i weithgarwch y Gymanfa. Ond mwy am hyn yr wythnos nesaf!

(l'w barhau)

Elfed Lewis, Trawsfynydd
Andrew Settatree, Caeathro
Aled Gwyn Job, Caernarfon

ei hiwmor ar y ffordd llwyddodd i ymlid y nerfuswydd a'r tyndra i fwrdd.

Gareth oedd yr unig ddewis fel gwas priodas. Bu'n fodd i'w ddenu am y tro cyntaf erioed i weld godidowgrwydd dihafal Dyffryn Conwy. Cyflawnodd ei oruchwylion gyda graen ac urddas. Roedd pawb wedi dotio ato oherwydd ei anwyldeb atyniadol a'i arabedd naturiol.

Digwyddiad arall oedd cael ein hordeinio yn Hydref 1960 ym Maesteg yn Sasiwn y De yn weinidogion yn Eglwys Bresbyteriaidd Cymru – yr unig rai y flwyddyn honno. Cawsom ein holi am ein ffydd a'n cyhmellion gan y Parch Samuel Davies Caerfyrddin, gŵr hwyliog a hoffus dros ben.

Cawsom wahoddiad i'w gartref inni gael syniad o drywydd yr holi. Arhosodd un o'i sylwadau yn fyw ym meddwl Gareth a minnau, 'Er mwyn popeth fechgyn, wrth bregethu ceisiwch fod yn ddiddorol, cofiwch fod yn gyfoes, ac anelwch fod yn fyr'.

O hynny ymlaen er mai yn achlysurol y gwelem ein gilydd, daliodd y cysylltiad yn fyw. Pan ymwelwn â Chaerdydd, cyfarfyddem am ginio a sgwrs ac ambell dro pan ddeuwn am Sul i'r Crwys, profwn o'i ddawn fel cogydd. Pan symudasom i'r De daeth mwy o gyfleon i'w weld.

Yn ystod y blynyddoedd olaf deuthum i ail gysylltiad â Gwen Holt. Cyfarfyddom gyntaf yn Eglwys Jewin Llundain, pan ordeiniwyd Gwen yn flaenores yn Eglwys Sutton. Profodd fy mhriod yn minnau ei chroeso twymgalon a'i darpariaeth hael. Daeth Gareth o hyd i gymdoges annwyl a

Gweddi am ostyngeddrwydd gan Ephraim y Syriad (306-373)



Er bod ei enw'n angof i'r mwyafrif ohonom yn ei ddydd roedd yn awdur toreithiog, yn ysgrifennu esboniadau Beiblaidd, homiliau ac emynau.

'Arglwydd a Meistr fy mywyd, gwareda fi rhag ysbryd diogi, busnesa ym materion pobl eraill, uchelgais, hunan-les a chario clecs. Rho i mi, dy was, ysbryd doethineb, gostyngeddrwydd, amynedd a chariad. Caniatâ Arglwydd i mi gael adnabod fy mhechodau a'm beiau fy hun a pheidio â barnu fy mrawd (a'm chwaer) oherwydd ti yn unig sydd ogoneddus yn oes oesoedd. Amen.'

ffrind gwirioneddol wych, ac ar ddiwedd oes, Samaritan Trugarog cyfoes.

Apeliodd Iesu inni fynd yr ail filltir. Gwraig y trydydd a'r pedwerydd milltir oedd Gwen. Bu ei gofal a'i chonsyrn am Gareth yn anhygoel. Treuliodd oriau niferus bob dydd yn gwarchod Gareth. Bendith yr Arglwydd arni hi yn barhaus am ei hymgeledd diflino.

Anodd yw ffarwelio â chyfaill oes.

O bosib mai yn y gaeaf y lluniodd y Parch Heddwyn Jones yr englyn afaelgar ac addas ar ddydd arwyl,

Heibio'r adnod a'r blode – heibio'r gair
Heibio'r gân a'r dagre
Heibio'r rhew dros llan a bre
Yr haul sydd yma'n rhywle.

Rhaid mai cyfeirio at yr Iesu, Haul mawr y cyfiawnder oedd yr englynwr.

Soniodd y Gwaredwr droeon wrth y disgyblion am y Tad Nefol a'r nefoedd ynghyd â thermau eraill nad ydynt mor adnabyddus, ond sydd yr un mor afaelgar i'r meddwl a'r galon ddynol. Os felly bydded i Gareth ddedwyddwch a llawenydd diderfyn yn y pebyll tragwyddol ac yn y pur drigfannau.

Y gair olaf sydd gennyf yw dyfyniad o alarnad ysbrydoledig Dafydd wedi marwolaeth Saul a Jonathan (2 Samuel 1). Yn y clodwynt mae'n cyfeirio at ei gyfeillgarwch dwfn â Jonathan. Am unwaith newidiaf yr enw –

'Gofidus wyf amdanat fy mrawd Gareth, buost yn yn annwyl gennyf.'

John Morgan Jôb

CALENDR Y GOLEUAD

Henaduriaeth Môn. Capel Tabor, Y Fali, nos Fawrth, 25 Medi am 7 o'r gloch.
Sylwer: Bydd Pwyllgor Gwaith yr Henaduriaeth **Nos Fawrth**, 18 Medi am 7 o'r gloch yn Lôn y Felin, Llangefni.

Eglwys Bresbyteriaidd Cymru Henaduriaeth Arfon

Mae Eglwys Seilo, Caernarfon a Chapel Y Waun, Waunfawr yn dymuno galw

Gweinidog Ordeiniedig llawn, neu ran-amser

i wasnaethu eu gofalaeth
fywiog a gweithgar.

Ymholiadau a manylion pellach
gan:

Richard P Jones 01286676096
neu rpj2@btinternet.com